# UN LLAIS CYMRU

**SWYDDOG CEFNOGI PROSIECT ARGYFWNG COSTAU BYW (37 awr yr wythnos) - Cyflog £33315 yf (Codiad cyflog yn yr arfaeth) - Gweithio gartref**

**MAE'R SWYDD AM GYFNODAU PENODOL TAN 31 MAWRTH 2026**

**Darparu cymorth i'r Rheolydd Prosiect a'r Swyddog Prosiect, fydd yn cynnwys cynorthwyo gyda gweithdai a chyfarfodydd, cadw cofnodion, gwneud gwaith ymchwil, cydlynu cyfathrebu a gweinyddu pecynnau TG y tîm. Bydd angen ichi feddu ar radd israddedig a/neu brofiad gwaith cyfatebol mewn rôl cefnogi prosiect ynghyd â phrofiad o weithio gyda gwahanol fudd-ddeiliaid a sefydliadau. Dylai fod gennych wybodaeth fras am dechnegau rheoli prosiect a meddu ar sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar a sgiliau TG rhagorol.**

**Bydd y tîm prosiect yn gyfrifol am gyflawni cynllun prosiect er mwyn rhoi gwell cymorth i aelwydydd incwm isel a phobl fregus mewn cymunedau ledled Cymru.**

**Bydd deiliaid y swydd yn gweithio gartref ac mae lwfans gweithio gartref yn daladwy.**

***(****Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru, ac mae'n cynnig llais cryf i gynrychioli buddiannau cynghorau a nifer fawr o wasanaethau o ansawdd uchel i gefnogi eu gwaith gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, cymorth gyda pholisi a gweithdrefnau, gwasanaethau hyfforddiant a datblygu, gwasanaethau ymgynghorol, a chynrychioli a hyrwyddo'r sector).*

**Mae'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais ar gyfer y swydd ar dudalen flaen ein gwefan - http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/Hafan__16738.aspx**

**DYDDIAD CAU – Ganol nos ar 19 Ebrill 2024**
**DYDDIAD CYFWELIAD: 3 Mai 2024.**

**Rhaid ichi lenwi ac e-bostio eich ffurflen gais at ein Hymgynghorydd Adnoddau Dynol Cysylltiol erbyn y dyddiad cau a'i gyfeiriad e-bost yw** jonathan.lazenbyOVW@gmail.com